Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd : | Goruchwyliwr Cegin a Llety | Lleoliad : | Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn |
| Adran : | Cegin a Llety | Cyflog : | Gweithredol 2:<br>£22,459 - £24,763 |
| Oriau Gwaith : | Rhan amser (oriau hyblyg) | Cytundeb : | Swydd barhaol, rhan amser |
| Yn adrodd i : | Dirprwy Gyfarwyddwr Glan-llyn | Rheolaeth Llinell : | Gweithredwyr arlwyo a glanhau ar ddyletswydd - yn absenoldeb y Prif Gogydd a Rheolwr Gwersyll |

## Prif bwrpas y swydd:

Goruchwylio ac arwain tîm o staff i gyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth arlwyo a glanhau Glan-llyn.
Cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau a safonau sydd wedi eu sefydlu, arwain a dangos esiampl.

---

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

**Materion cyffredinol (Cegin a Llety):**

1. Cynorthwyo i gydlynu rota staffio Adran Cegin a Llety Glan-llyn.
2. Sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth trwy archebu bwydydd a deunyddiau glanhau yn ôl yr angen.
3. Arwain tîm o staff arlwyo a glanhau sydd ar ddyletswydd, rhoi cyngor, canllawiau a dirprwyo fel y mae angen ar faterion dyddiol.
4. Sicrhau bod pob aelod o'r Adran Cegin a Llety yn bodloni a chydymffurfio â gofynion Hylendid Personol, Diogelwch Bwyd a gofynion Iechyd a Diogelwch – gweithio'n ddiogel. Cyfeirio unrhyw broblemau difrifol i Reolwr Gwersyll.
5. Cydlynu y wybodaeth sydd wedi nodi ar yr hysbysfyrddau – trefniadau gwasanaeth, niferoedd gwersyllwyr, anghenion deiet arbennig, hysbysiadau iechyd a diogelwch / diogelwch bwyd, rota gwaith ayyb.
6. Hysbysu Rheolwr Gwersyll a staff cynnal a chadw am unrhyw beth sydd o'i le neu angen sylw. Os ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch neu'r cyhoedd, dylid sôn amdanynt yn syth.
7. Cynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau a datblygiadau
8. Dangos esiampl ag ymarferion da i'r staff eraill.

9. Rhoi gwybodaeth a chynorthwyo ein cwsmeriaid mewn ffordd gymwynasgar a chyfeillgar.

**Materion Tim Glanhau:**

10. Arwain a goruchwylio tîm glanhau Glan-llyn.
11. Gwirio safonau glanhau yn y gwersyll.
12. Cydlynu trefniadau diheintio'r gwersyll.
13. Sicrhau a chynnal safon uchel o hylendid a glanweithdra gyda'r cyfarpar a'r amgylchedd cegin yn ogystal â'r ardaloedd paratoi bwyd a'r storfeydd cysylltiedig, gweithredu Amserlen Glanhau.

**Materion Tim y Gegin:**

14. Arwain a goruchwylio tîm sy'n paratoi a choginio bwyd, yn ddiogel ac iach i safon uchel, bwyd blasus sydd yn dderbyniol i bob un o'n cwsmeriaid.
15. Paratoi bwydydd ar gyfer cwsmer sydd ag Alergedd neu Anoddefiad bwyd, archwilio cynhwysion bwydydd yn fanwl.
16. Cwblhau dogfennau H.A.C.C.P.

**Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

• Sgiliau a / neu brofiad o goginio a glanhau.

• Cymhwyster Diogelwch Bwyd – Lefel 2 /3

• Gwybodaeth am Reoliadau Hylendid / Diogelwch Bwyd.

• Gwybodaeth am Alergedd ac Anoddefiad Bwyd, ddietau arbennig, anghenion diet diwylliannol.

• Gwybodaeth am Ddadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli sy'n gritigol i Ddiogelwch Bwyd (HACCP)

• Gwybodaeth am drefniadau diogelwch ac ymwybyddiaeth am faterion iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf.

• Profiad blaenorol mewn amgylchedd cegin / glanhau, gweithio gyda / arwain tîm ar ddyletswydd.

• Sgiliau cyfathrebu llafar effeithiol, gan gynnwys y gallu i gyfleu gwybodaeth yn gywir ac mewn ffordd briodol.

• Sgiliau effeithiol wrth ofalu am gwsmeriaid, agwedd gyfeillgar a chymwynasgar wrth ymdrin ar gwsmeriaid.

• Y gallu i weithio dan bwysau ac o fewn terfynau amser.

• Ymwybyddiaeth am drefniadau yn achos tân ac argyfyngau eraill.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Hanfodol:

1. Safon uchel o sgiliau coginio a glanhau.
2. Gallu i arwain tim yn llwyddiannus.
3. Gallu i ddilyn cyfarwyddyd a rhoddir gan Reolwr Gwersyll, a dangos esiampl ac arwain staff.
4. Cyfathrebwr da.
5. Dangos gallu i gynllunio llwythi gwaith yn seiliedig ar ddigwyddiadau a gynhelir yn y Ganolfan.
6. Llygad craff a dealltwriaeth o safonau ansawdd.
7. Gallu i ddeall anghenion cwsmeriaid ac yn medru arddangos gwerth gofal cwsmeriaid.
8. Ymddangosiad taclus.
9. Agwedd hyblyg a pharod at waith, gyda synnwyr cyffredin i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n codi.
10. Hyfforddiant Diogelwch Bwyd, Gwybodaeth am Alergedd Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf.

Dymunol:

1. Profiad o goginio a glanhau.
2. Cymhwyster Hylendid Bwyd – Lefel 2/3.
3. Gwybodaeth am Alergedd ag Anoddefiad Bwyd.
4. Gwybodaeth am HACCP.
5. Profiad blaenorol mewn amgylchedd cegin a glanhau ac arwain tîm ar ddyletswydd.
6. Cymhwyster Iechyd a Diogelwch – Lefel 2.
7. Cymorth Cyntaf / Epi-pen.

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

## CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU AC BUDDIANNAU

**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Goruchwyliwr Cegin a Llety |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| Gwiriad GDG: | Yn ddibynnol ar leoliad gwaith, o bosib bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa. |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus.  Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Arwahan i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-Blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personnol i'w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o:<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr Urdd<br>- Tocynnau i gynhyrchiadau Cwmni Theatr yr Urdd |
| Cynllun Beicio | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000. |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| Cinio am ddim: | Ar hyn o bryd, cynigwn ginio cynnes am ddim i holl staff sy'n gweithio yn y gwersylloedd neu yn ymweld a'r gwersylloedd. |